------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 9 Mehefin 2015**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Michael Kay**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru

## Agenda
Preifat

**Cytunodd y Pwyllgor ar 2 Mehefin 2015 ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn.**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

### 2 Papurau i'w nodi (09:00-09:05) (Tudalennau 1 - 3)

**Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr 2013-14: Llythyr gan Y Dirprwy Lywydd (1 Mehefin 2015)** (Tudalennau 4 - 6)

### 3 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Ystyried yr Adroddiad Drafft (09:05-09:35) (Tudalennau 7 - 59)

PAC(4)-16-15 Papur 1

### 4 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru (09:35-10:00) (Tudalen 60)

PAC(4)-16-15 Papur 2

## 5 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor (10:00-10:10)

(Tudalennau 61 - 67)

PAC(4)-16-15 Papur 3

PAC(4)-16-15 Papur 4

## 6 Glastir: Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor (10:10-10:20) (Tudalennau 68 - 77)

PAC(4)-16-15 Papur 5

PAC(4)-16-15 Papur 6

## 7 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf (10:20-10:35) (Tudalennau 78 - 79)

PAC(4)-16-15 Papur 7

## 8 Blaenraglen waith: Rhaglen waith Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2015-16 (10:35-11:00) (Tudalennau 80 - 110)

PAC(4)-16-15 Papur 8

PAC(4)-16-15 Papur 9

Eitem 2

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015** |
| Amser: | **09.03 – 10.59** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2734**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Sara Ahmad, Llywodraeth Cymru**<br>**John Howells, Llywodraeth Cymru**<br>**June Milligan, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Hannah Johnson (Ymchwilydd)**<br>**Nick Selwyn (Swyddfa Archwilio Cymru)**<br>**Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)**<br>**Dave Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papurau. Trafododd yr Aelodau y llythyr gan Dr Peter Higson (Eitem 2.2) yn ystod rhan breifat y cyfarfod.

2.1 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru (13 Mai 2015)

2.2 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan Dr Peter Higson (15 Mai 2015)

2.3 Cyllid Iechyd 2013-14: Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru (Mai 2015)

2.4 Diwygiad Lles: Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Tai Cymru a Gorllewin Lloegr (Mai 2015)

2.5 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Llythyr gan Steve Martin, Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (21 Mai 2015)

## 3 Diwygiad Lles: Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru; John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru; a Sara Ahmad, Economegydd, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru, ar ei ymchwiliad i ddiwygiad lles.

3.2 Cytunodd June Milligan i wneud y canlynol:

- Anfon nodyn ynghylch y safleoedd y mae awdurdodau lleol wedi'u rhyddhau ar gyfer datblygu tai;
- Gwneud sylw ar sefyllfa bresennol y cymdeithasau tai yn newid eu polisïau dyraniadau fel nad oes gwaharddiad ar denantiaid sydd â rhent fel ôl-ddyledion yn seiliedig ar ddyledion budd-dal tai;
- Gwneud sylw ar effaith y cap budd-dal is arfaethedig yng Nghymru;
- Dadansoddiad o ardal awdurdodau lleol o dai yr effeithir arnynt (pan fo'r wybodaeth hon ar gael) gan y cap budd-dal is arfaethedig.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Diwygiad Lles: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Rhagnodi Gofal Sylfaenol: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Oherwydd bod amser yn brin, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon. Cytunwyd y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn briffio'r Pwyllgor ar ei femorandwm ar Ragnodi Gofal Sylfaenol yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mehefin.

Eitem 2.1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

1 June 2015

Dear Darren

Thank you for your letter of 19 May. The Commission met on 21 May and took the opportunity to discuss your letter. We agreed that, given the way in which we set and control our budget, we do not believe that underspending should be viewed as a positive achievement. In this letter I will explain why we consider that the Commission's approach is robust and delivers value for money.

Throughout the Fourth Assembly, the Commission has taken a strategic approach to budget planning, with a budget strategy for the full duration of the Assembly and multiple year budgets. This approach has delivered greater clarity, transparency and consistency. It has been approved year on year by the Finance Committee and by the Assembly as a whole. Underpinning the budget strategy, we have detailed plans which allow us to take a long term view of spending requirements. As a good example of this, a plan for maintenance and refurbishment was developed for us by experts who reviewed the condition of all our buildings and equipment and plant, together with forecast lifespans and timetables for refurbishment and replacement. As a result we have a schedule of required work spanning ten years that we use to inform our investment decisions for the estate.

Of course, as you know, the Commission has an annual budget and has no facility to carry over funds from one year to the next. However, having clear plans about work that we know will be required, allows us prioritise and make considered, well-judged use of our annual budgets. The alternative, if we were not sufficiently well organised to take this longer term view, would be to report and surrender underspends in one year and then ask for the funds again in subsequent years to carry out the necessary

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8430
Ebost/Email: david.melding@wales.gov.uk



Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

work; this practice would simply be deferring expenditure and provide no indication whatsoever of efficiency or value for money.

The Accounting Officer has established an Investment and Resourcing Board as the decision making body for resourcing in the Assembly, which provides challenge and review for all resource decisions ranging from staff recruitment through to project funds or additional operational expenditure. Throughout the financial year, the Board balances the availability of funds with the needs of projects and services over multiple years to ensure its investment in the Assembly is properly scrutinised, prioritised and managed.

Every letter of Delegation which the Accounting Officer issues to relevant Commission staff includes the following requirement: *"You must commit your budget in a manner which is consistent with Value for Money, i.e. every £1 spent supporting the Assembly should represent good value for money, and resources should be used in the most appropriate way to deliver effective services to the Assembly and to the people of Wales."* Expenditure on items that are not needed, and that do not help to deliver the Commission's strategic goals, is simply not tolerated.

Like the PAC, the Assembly Commission believes that securing value for money is vital. Indeed, an internal audit report from March 2015 concluded that *"the Assembly Commission has a well-developed value for money culture in place and this culture is embedded throughout the organisation*". Throughout this Assembly one of our strategic goals has been to "use resources wisely". As I explained in my letter of 7 May, to strengthen our approach further we are shifting the focus of our value for money target from vacancy management to gains from projects in benefits realisation, Assembly services and procurement delivering successful contract negotiations that result in tangible savings. Our 1% target for spend against budget is not intended to be a VFM indicator. Rather, it is one measure of whether we are managing our business well and delivering what we say we will. The full suite of measures published in our regular Corporate Performance Reports provide comprehensive information by which we can be judged. This in turn is part of our Assurance Framework, which is independently tested in a number of ways. Together, all these elements provide assurance that the Commission uses its resources efficiently, economically and effectively, avoiding waste and extravagance, entirely in line with best practice set out in HM Treasury guidance.

Although we may disagree on some aspects of the approach, I believe that the PAC and Commission are as one on our objectives, namely to deliver the high quality services that the Assembly at best value to the public purse. In our view, the best way to achieve that is to ensure that our budget planning is expert, thorough,

transparent and subject to proper scrutiny. It is then incumbent on us to ensure that the money assigned to the Commission is well spent. We believe that our approach delivers value for the taxpayer in a way that is more open and effective than having a target to underspend.

Thank you again for challenging us to reflect on our approach. I hope that this response is helpful and received by the Committee in the positive way it is intended.

Yours sincerely

**David Melding AM**
**Deputy Presiding Officer**

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, LL57 2PW

**Ein cyf / Our ref: PH/MLW**
☎: 01248 384290
**Gofynnwch am / Ask for: Chairman's office**
**Ebost / email** peter.higson@wales.nhs.uk
**Mandy.williams7@wales.nhs.uk**
**Dyddiad / Date:** 4th June 2015

Darren Millar AM
Chair, Public Accounts Committee
National Assembly for Wales

Dear Darren

I write further to my letter of 8 May 2015. The Committee will be aware that the Health Board was informed by the North Wales Police on 21 May 2015 that they had concluded their investigations into the care of patients on the Tawel Fan Ward in the Ablett Unit at Ysbyty Glan Clwyd. The Police met with the families to inform them of the outcome on May 26 and 27. At the same time we made arrangements for the families to have a copy of the Ockenden Report. The Health Board then published the Ockenden Report and held a press conference on May 28.

The Ockenden Report, the Health Board's response and the actions that will now be taken will form a major part of the Board meeting on June 9. We clearly and rightly must give this as much time as we need given the gravity of the issues regarding the Tawel Fan Ward.

In addition, we will also be taking a paper on the Out of Hours report and an update on Obstetrics and Gynaecology services.

As a consequence, we earlier this week reviewed the Board agenda and papers and decided to defer two items until our Board meeting on 14 July to allow sufficient time for these serious and important matters.

Ann Lloyd's report is one of the items that we have therefore deferred until our July Board meeting. This will allow us the time as a Board to give the Report full and proper consideration. As I stated in my letter of 8 May, we will also be taking a report that provides an update on progress since Ann's work was completed and a consolidated update on governance that incorporates Ann's findings together with the follow up report by WAO/HIW of July 2014, last year's structured assessment recommendations from the WAO and the earlier PAC report. The deferment will also allow us some additional time to further develop the report that the Board will receive and consider.

The papers for our July Board meeting will be published on 7 July.

Yours sincerely

Peter Higson

**Dr Peter Higson**
**Chairman**

**Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Adroddiad Dilynol**

Rydym yn croesawu'r adroddiad ac mae ein hymateb i'r argymhellion penodol fel a ganlyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar bob un o'r argymhellion cyn toriad yr haf.

**Argymhelliad 1** – ***Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn ennyn hyder yn ansawdd a chysondeb penderfyniadau ar ddyfarniadau cyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus, y dylai'r gwaith ar samplau archwilio blynyddol yr holl Fyrddau Iechyd gael ei wneud yn annibynnol, gan yr un tîm.***

***Derbyn***

Bydd tîm canolog yn cymryd y samplau archwilio blynyddol (disgwylir ym mis Medi 2015 ac yn flynyddol wedi hynny). Disgwylir y bydd yn cymryd mis i gwblhau'r archwiliadau.

**Argymhelliad 2** – ***Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am ganlyniadau a chanfyddiadau'r adolygiad parhaus o achosion sy'n ymwneud ag anableddau dysgu, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2015.***

***Derbyn***

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad hwn i'r Pwyllgor erbyn toriad yr haf.

**Argymhelliad 3 –** ***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro cynnydd Byrddau Iechyd wrth brosesu ôl-hawliadau ac os bydd angen, cyfeirio hawliadau nas proseswyd o fewn y terfyn amser rhagnodedig at Brosiect Powys a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor cyn toriad yr haf.***

***Derbyn***

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cynnydd mewn perthynas ag ôl-hawliadau. Caiff gwybodaeth ei monitro bob mis. Mae'r Bwrdd Gofal Cymhleth Cenedlaethol, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr Bwrdd Addysg Iechyd Powys, yn derbyn adroddiadau rheolaidd ym mhob cyfarfod. Cytunwyd y caiff yr ôl-hawliadau ar gyfer Cyfnod 2 eu trosglwyddo i Brosiect Cenedlaethol Powys. Cytunwyd ar y broses ac mae gwaith yn mynd rhagddo.

**Argymhelliad 4 –** ***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor cyn toriad yr haf ar y broses o ehangu'r***

***rhaglen recriwtio yn lleol ac yn genedlaethol gan nodi a yw hyn wedi arwain at welliannau yn yr amser a gymerir i brosesu hawliadau presennol a hawliadau yn y dyfodol.***

***Derbyn***

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i fyrddau iechyd lleol am wybodaeth ynghylch niferoedd staff yn ymdrin â hawliadau cynghorau iechyd cymuned. Bydd hyn yn cynnwys hysbysu pan fydd niferoedd staff yn newid, ac mae Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth bob mis ynghylch ymdrin â hawliadau. Bydd y Bwrdd Gofal Cymhleth Cenedlaethol yn derbyn adroddiad diweddaru ym mhob cyfarfod. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn.

**Argymhelliad 5 –** ***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro Byrddau Iechyd er mwyn sicrhau nad yw'r terfyn amser byrrach ar gyfer hawliadau mwy diweddar yn arwain at ganlyniadau anfwriadol yn sgil amseroedd datrys hwy ar gyfer hawliadau hirsefydlog sydd heb eu datrys.***

**Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro pob hawliad yn fisol. Bydd y Bwrdd Gofal Cymhleth Cenedlaethol yn derbyn adroddiadau rheolaidd ym mhob cyfarfod.

**Argymhelliad 6 –** ***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn glir ac yn ddealledig mewn perthynas â gofal cymhleth. Bydd hyn yn cynnwys monitro effeithiolrwydd trefniadau o'r fath ac ymgysylltu ag aelodau o'r Bwrdd Gofal Cymhleth Cenedlaethol ac unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n cefnogi ei waith.***

***Derbyn***

Mae pob bwrdd iechyd lleol a Llywodraeth Cymru wedi ystyried a chymeradwyo'n ffurfiol y Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd. Arweiniodd hyn at ffurfio'r Bwrdd Gofal Cymhleth Cenedlaethol a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cenedlaethol. Caiff y Bwrdd ei gadeirio ar y cyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu. Caiff y Grŵp Cyfeirio ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio. Bydd y Pwyllgor yn derbyn manylion yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl erbyn toriad yr haf. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol y grŵp ac mae'r aelodau wrthi'n cytuno ar y cylch gorchwyl. Caiff presenoldeb mewn cyfarfodydd ei fonitro a bydd y Cadeiryddion yn trafod unrhyw bryderon gyda Phrif Weithredwyr byrddau iechyd lleol yn ôl y gofyn.

**Argymhelliad 7 –** ***Yn ogystal â'r taflenni presennol y gall unigolyn gael gafael arnynt pan fydd unigolyn o fewn y system, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi taflen gwybodaeth gyhoeddus cyffredinol ar ofal***

***iechyd parhaus. Dylid rhannu'r taflenni hyn gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a'u dosbarthu'n eang, a dylent fod ar gael mewn meddygfeydd hefyd.***

***Derbyn***

Bydd pob bwrdd iechyd lleol yn cael copïau ychwanegol o'r Daflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd i'w dosbarthu i gartrefi gofal lleol ym mis Mai. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi rhestr ddosbarthu ofynnol i fyrddau iechyd lleol i sicrhau bod y taflenni ar gael yn helaeth, gyda meddygfeydd teulu ar y rhestr hon.

Mae'r daflen hon, ynghyd â chyhoeddusrwydd a gwybodaeth arall, ar gael ar dudalen gwe Llywodraeth Cymru a'r Safle Cymorth Gofal Cymhleth a Gwybodaeth dan berchnogaeth y GIG a Llywodraeth Cymru ar y cyd.

**Argymhelliad 8 –** ***Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi canllawiau gorfodol i Fyrddau Iechyd a darparwyr gofal cymdeithasol ynghylch ble y dylai gwybodaeth mewn perthynas â gofal iechyd parhaus fod ar gael. Dylai hyn gynnwys darparu gwybodaeth i unigolion (a/neu eu teuluoedd) sydd mewn cartref gofal, neu ar fin mynd i gartref gofal, gan gynnwys manylion am sut y caiff yr Offeryn Cefnogi Penderfyniadau ei ddefnyddio gydag unigolion sy'n cael eu hasesu ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.***

***Derbyn***

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau gorfodol i fyrddau iechyd lleol. Bydd hyn yn cynnwys rhestr ddosbarthu ofynnol i sicrhau bod y taflenni ar gael yn helaeth. Mae ymarferwyr wedi cael set o gwestiynau cyffredin. Mae'r rhain yn cyfeirio at ddefnyddio a chymhwyso'r Dull Cefnogi Penderfyniadau. Bydd copïau ychwanegol o'r Daflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn cael ei hanfon i bob bwrdd iechyd lleol er mwyn ei dosbarthu i gartrefi gofal lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn creu posteri erbyn yr hydref ac gofyn i fyrddau iechyd lleol ddosbarthu posteri yn cyfeirio at wefan Llywodraeth Cymru lle mae'r daflen a gwybodaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am y dull cefnogi penderfyniadau.

**Argymhelliad 9 –** ***Mae'r Pwyllgor yn pryderu o hyd ynghylch ymwybyddiaeth, ansawdd a lefel y ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth a ddarperir gan fyrddau iechyd gwahanol ac mae'n cefnogi'r syniad o gleifion a gofalwyr yn deall eu hopsiynau a'r broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor cyn toriad yr haf, yn egluro sut y mae'n bwriadu gwella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau eiriolaeth a'r ymwybyddiaeth ohonynt.***

***Derbyn***

Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r byrddau iechyd lleol am y sefyllfa eiriolaeth yn eu hardaloedd. Byddwn yn adolygu hyn i sicrhau bod y mater yn briodol ac yn cytuno cymryd camau pellach i fynd i'r afael â materion lle bo angen. Bydd y Pwyllgor yn cael y diweddaraf cyn toriad yr haf yn nodi'n glir sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei gyflawni.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 28 Mai 2015
Ein cyf: HVT/2335/caf
Tudalen: 1 o 3

Annwyl Darren

**CYNGOR AR YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD DILYNOL Y PWYLLGOR AR OFAL IECHYD PARHAUS Y GIG**

Roedd llythyr y Dirprwy Glerc ar 14 Mai 2015 yn gofyn am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad dilynol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi ei bod yn derbyn naw argymhelliad y Pwyllgor, a'i bod wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd cyn gwyliau'r haf. Yn achos Argymhelliad 2, bydd y wybodaeth honno'n cynnwys canfyddiadau'r adolygiad o achosion ag anableddau dysgu. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir pam nad oedd modd i ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw, a fyddai'n dod i ben ym mis Mawrth 2015 yn ôl yr hyn a ddeallai'r Pwyllgor, gael eu rhannu yn y cam hwn.

Yn gyffredinol, rwyf yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn foddhaol i'r rhan fwyaf o'r argymhellion. Fodd bynnag, rwyf wedi tynnu sylw isod at rai meysydd y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn am ragor o wybodaeth neu esboniad gwell yn eu cylch, fel rhan o'r wybodaeth ddiweddaraf a addawyd. Yn fwyaf arwyddocaol efallai, nid yw'n glir bod y cam gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn ei amlinellu yn ei hymateb yn rhoi sylw llawn i Argymhelliad 7.

**Argymhelliad 1:** Roedd y Pwyllgor yn hyderus yn ei drefniadau presennol ar gyfer proses samplu'r archwiliad, gan fod y rhain yn seiliedig ar dîm canolog gydag arbenigedd a statws digonol, gan ddarparu cysondeb ac elfen o annibyniaeth. Yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Integreiddio, Polisi a Chyflawni bod Llywodraeth Cymru, gydag amser, eisiau symud at broses adolygu cymheiriaid sy'n cynnwys ymarferwyr byrddau iechyd yn hytrach na thîm canolog. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad yn cadarnhau y bydd tîm canolog yn ymgymryd â'r

Rhif Ffôn Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.thomas@archwilio.cymru

samplau archwiliad blynyddol. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor esbonio a oes uchelgais o hyd i symud oddi wrth y trefniant hwn ar unrhyw adeg yn y dyfodol rhagweladwy.

**Argymhelliad 3:** Un elfen o argymhelliad y Pwyllgor oedd bod Llywodraeth Cymru, os oes angen, yn cyfeirio hawliadau heb eu prosesu o fewn amser penodol i sylw Prosiect Powys. Yn gyson â'i thystiolaeth i'r Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod casgliad o hawliadau (y cyfeirir atynt fel hawliadau 'Cam 2') wrthi'n cael eu trosglwyddo i Brosiect Powys. Fodd bynnag, nid yw ymateb Llywodraeth Cymru'n rhoi sylw penodol i unrhyw hawliadau eraill. Os nad yw'r Byrddau Iechyd yn clirio hawliadau eraill o fewn yr amserlenni penodol, nid yw'n glir a fydd y rhain hefyd yn cael eu trosglwyddo i Brosiect Powys. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor gadarnhau y bydd y diweddariad a addawyd cyn gwyliau'r haf yn cynnwys data perthnasol i brosesu hawliadau am yn ôl, ac y bydd cyfeirio hawliadau eraill i Brosiect Powys, yn ychwanegol at hawliadau Cam 2, yn cael ei ystyried yn angenrheidiol.

**Argymhelliad 7:** Roedd y Pwyllgor eisiau i Lywodraeth Cymru gyhoeddi taflen wybodaeth gyffredinol i'r cyhoedd am Ofal Iechyd Parhaus, yn ychwanegol at y taflenni sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer unigolion pan ddônt 'yn rhan o'r system'. Y cyfan a wna ymateb Llywodraeth Cymru yn ôl pob tebyg yw ymrwymo i ddosbarthu'n ehangach un o'r taflenni sy'n bodoli eisoes yn ôl yr hyn a welaf i. Mae'n anodd gweld sut gellir ystyried bod yr argymhelliad wedi'i dderbyn yn llawn oni bai fod taflen wybodaeth ar wahân, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor, neu daflen wedi'i hadolygu o leiaf ac wedi'i chynllunio'n benodol i weithio i'r ddwy gynulleidfa, ar gael.


Hefyd, nid yw ymateb Llywodraeth Cymru'n dangos yn glir a fydd y taflenni'n cael eu rhannu gyda gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

**Argymhelliad 8:** Yn ei hymateb, mae Llywodraeth Cymru'n cadarnhau y bydd yn rhoi cyfarwyddyd gorfodol i Fyrddau Iechyd ar ddosbarthu taflenni gwybodaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n ailadrodd yr ymrwymiad fel ymateb i Argymhelliad 7 am ddosbarthu i gartrefi gofal lleol. Fodd bynnag, nid yw'r ymateb yn dangos yn glir a fydd y cyfarwyddyd gorfodol yn cynnwys gofyniad i ddarparu gwybodaeth i bobl cyn eu derbyn i gartref gofal, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor. Byddai'r grŵp hwn o bobl yn cynnwys y rhai sy'n aros am gael eu trosglwyddo o ward ysbyty a'r rhai sy'n cael cefnogaeth yn eu cartref eu hunain ond sy'n bwriadu symud i gartref gofal.

Hefyd roedd y Pwyllgor yn bryderus am y diffyg o ran gwybodaeth gyhoeddus am sut defnyddir yr Adnodd Cefnogi Penderfyniadau gyda'r rhai a asesir ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus. Mae ymateb Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu a dosbarthu poster sy'n cyfeirio pobl at y wefan sy'n cynnwys gwybodaeth amrywiol, gan gynnwys gwybodaeth am yr Adnodd Cefnogi Penderfyniadau.

Gobeithio bod y cyngor hwn o gymorth i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

# Eitem 6

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Glastir**
**Mai 2015**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion**

**Argymhelliad 1:**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfranogiad yn Glastir Uwch yn sicrhau gwelliant gwirioneddol mewn arferion amaeth-amgylcheddol a gwelliannau i'r amgylchedd naturiol, ac nad yw ond yn atgyfnerthu arferion cyfredol.**

**Derbyn yn Rhannol.** Ym mis Tachwedd 2014, comisiynwyd panel annibynnol gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o sampl o gontractau Glastir Uwch cyfredol. Cyflwynwyd argymhellion panel annibynnol gwerthuso Glastir Uwch i swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried canfyddiadau cychwynnol Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir ynglŷn â sut y gall Glastir flaenoriaethu ardaloedd sydd â'r posibilrwydd gorau o gyflawni canlyniadau a gosod targedau uchelgeisiol y gellir eu cyflawni trwy ddefnyddio ymyriadau wedi'u targedu.

Erbyn mis Mai 2015, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl bod mewn sefyllfa i wella Glastir Uwch trwy:

- Ad-drefnu amcanion Glastir, fel y gellir ymgorffori digon o ymyriadau mewn contractau er mwyn i fuddiannau ystyrlon gronni.
- Darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i'r angen penodol i Reolwyr Contractau, pryd mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad a'u derbyn.
- Nodi pa welliannau y gellid eu gwneud i ddogfennau, canllawiau a mapiau i gefnogi Rheolwyr Contractau a helpu i gyflawni contractau mwy effeithiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio â sefydliadau partner i fireinio mwy ar haenau Amcanion Glastir er mwyn targedu mwy ar ymyriadau o dan Glastir Uwch. Er bod rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn caniatáu gwneud taliadau cynnal i barhau â'r arferion ffermio presennol, nid yw Llywodraeth Cymru ond yn cefnogi gweithgareddau sy'n mynd tu hwnt i'r arferion ffermio arferol a lefel sylfaenol Datblygu Gwledig. Bydd llai o newidiadau'n ofynnol gan rai busnesau fferm nag eraill. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n credu ei bod yn ddefnydd dilys a da o gyllid cyhoeddus i dalu am ymyriadau o dan Glastir Uwch sy'n sicrhau bod cynefinoedd o werth uchel yn parhau i gael eu rheoli mewn ffordd gadarnhaol pryd yr ystyrir bod gwir berygl y gallent gael eu colli fel arall.

**Argymhelliad 2:**

**Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach sut y mae'n nodi arfer gwael ac yn ymdrin â'r arfer hwnnw mewn perthynas ag ansawdd dŵr drwy ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys rheoleiddio a thalu – neu dynnu'n ôl – y cyllid cyhoeddus**

**Derbyn.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi nodi nifer o broblemau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr yng Nghymru, hynny fel rhan o'u gwaith i ddatblygu ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae CNC wrthi'n ymgynghori ar y cynlluniau drafft a thros yr haf, caiff y fersiynau terfynol eu paratoi i'w cyflwyno i'r Gweinidog yn yr hydref, cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2015.

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd gan CNC wrth ddatblygu'r cynlluniau rheoli basnau afonydd, byddwn yn ystyried ymyriadau posibl a fydd yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol yn ansawdd y dŵr. Gallai hynny o bosibl olygu newid y system reoleiddio i sicrhau ei bod yn hyblyg ac yn cymell gwelliannau i arferion rheoli tir.

Rydym hefyd yn gweithio gyda CNC i adolygu effeithiolrwydd y cyngor atal llygredd a'r trefniadau gorfodi presennol.

O dan y drefn Trawsgydymffurfio, ceir mesurau penodol i ddiogelu ansawdd dŵr, drwy leihau gwaddodiad a sicrhau bod llai o nitradau a ffosffadau'n cael eu colli i ddŵr wyneb a dŵr daear. Mae Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da 1 yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr greu lleiniau clustogi er mwyn atal llygryddion amaethyddol rhag mynd i ddŵr wyneb na dŵr daear. Mae Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da 5 yn cynnwys mesurau i atal erydiad y pridd a gwaddodiad cyrsiau dŵr. Bydd y Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr sy'n torri'r gofynion hyn yn cael eu gostwng. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu a diweddaru'r Côd Ymarfer Amaethyddol Da gyda'r bwriad o wella'r cyngor a'r arweiniad a roddir i ffermwyr ynglŷn ag ymarfer da ac o leihau i'r eithaf y perygl o lygredd amaethyddol.

Bydd taliadau'n dal i gael eu targedu mewn dalgylchoedd afonydd allweddol trwy gynlluniau cymhelliant fel Glastir a Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy, lle gwelir y gellid gwella ansawdd dŵr trwy weithgareddau llymach na'r safonau rheoleiddio ac arferion da sylfaenol. Cefnogir y gweithgareddau hyn gan Gynllun Rheoli Maethynnau.

Bydd trosglwyddo gwybodaeth yn parhau i ddarparu cyngor arbenigol i ffermwyr ynglŷn â sut i arbed mwy o arian trwy weithredu'n fwy effeithlon, a gwneud y defnydd gorau o'r holl fewnbynnau, gan leihau'r costau a'r perygl o lygredd gwasgaredig. Gellir hefyd gyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy ddefnyddio llai o wrtaith anorganig.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried ffyrdd i sicrhau ymrwymiad y sector preifat a chwmnïau cyfleustodau i'r drefn Talu am Wasanaethau Ecosystemau, a all sicrhau buddiannau i'r amgylchedd yn yr hirdymor, dros 20 mlynedd, o'i gymharu â chefnogaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig, sydd gan amlaf yn cael ei chyfyngu i gylchoedd 7 mlynedd.

**Argymhelliad 3:**

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi pan fo materion o ran ansawdd dŵr yn codi o dir a gynhelir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac adrodd ar ba gamau adferol y mae'r sefydliad yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.**

**Derbyn:** Fel rhan o'i waith i ddatblygu ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae CNC wedi nodi'r rhesymau pam y bu i unrhyw gorff dŵr fethu â sicrhau statws ecolegol da. Mae hynny'n cynnwys tir preifat a thir sy'n cael ei gynnal gan CNC. Mae statws da yn golygu dŵr sydd heb weld fawr o newid o'i gyflwr cynhenid.

Bydd y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd nesaf yn cynnwys rhaglen o fesurau yn dangos sut yr ydym am gyflawni statws ecolegol da o 100% erbyn diwedd y cylch nesaf yn 2021.

Mae gan CNC raglen o weithgareddau i dargedu gwaith gwella ar Ystad Llywodraeth Cymru. Blaenoriaethwyd y rhain yn unol â chanlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a lle y gellir cyflawni'r buddiannau mwyaf. Y mesurau a gymerir o fewn y cyrff dŵr hyn sy'n cael eu blaenoriaethu fydd:

- Adolygu'r dull o reoli glannau'r afonydd o fewn y goedwig a sicrhau ei fod yn bodloni safonau canllaw Safonau Coedwigaeth y DU.
- Adolygu'r system ddraenio o fewn y goedwig i sicrhau nad oes dim o'r systemau draenio artiffisial yn llifo'n uniongyrchol i gyrsiau dŵr (lle nad oes modd eu datgysylltu, bydd angen mabwysiadu'r draeniau hynny fel cyrsiau dŵr).
- Adolygu systemau draenio gerllaw'r ffyrdd i sicrhau nad oes dim o'r draeniau ar ymyl y ffordd yn llifo'n uniongyrchol i gyrsiau dŵr.
- Adolygu cynlluniau dylunio coedwigoedd (neu ddatblygu Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd) a nodi risgiau posibl, megis peirianwaith sifil, llwyrgwympo ac ailstocio, a rhoi dulliau ar waith i liniaru hyn ac ystyried systemau coedamaeth bach eu heffaith pan fo'n gymwys.
- Pan allai gweithgareddau coedwigaeth nad oes modd eu hosgoi o bosibl gael effaith sylweddol ar ansawdd y dŵr (e.e. torri coed i gydymffurfio â gorchymyn iechyd planhigion) sicrhau y cymerir pob cam posibl i liniaru hyn.

Mewn ymateb i'r risg o waddodiad yn sgil gweithrediadau mewn coedwigoedd, mae CNC yn rhoi Cynlluniau Rheoli Dŵr gorfodol ar waith ar gyfer yr holl weithrediadau. Mae'r rhain yn gofyn am gynnal asesiad o'r risg amgylcheddol, monitro dŵr yn rheolaidd a rhestru manylion y mesurau lliniaru a roddwyd ar waith i atal gwaddodion rhag cyrraedd cyrsiau dŵr. Cynhaliwyd Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Dŵr ac mae mwy ar y gweill yn hwyrach yn y flwyddyn. Cyflwynir y rhain nid yn unig ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru, ond hefyd ar gyfer y sector coedwigaeth ehangach.

**Argymhelliad 4:**

**Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad ffurfiol o brofiadau cwsmeriaid o'r broses o wneud cais ar-lein a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol os yw hyn yn rhwystr neu'n ddatgymhelliad i gymryd rhan yn y cynllun.**

**Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid amaethyddol gan gynnwys ffermwyr i ddylunio ac adolygu prosesau ceisio ar-lein newydd i sicrhau eu bod yn hawdd eu deall a'u defnyddio.

Bydd Llywodraeth Cymru yn holi ffermwyr sydd wedi cwblhau Ffurflen Cais Sengl 2015 a'r ceisiadau Glastir ar-lein i glywed eu hymateb i'r broses ymgeisio a chymorth digidol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r canfyddiadau erbyn yr hydref 2015 a gwneud newidiadau i unrhyw geisiadau yn y dyfodol, yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 5:**

**Dylai Llywodraeth Cymru ddadelfennu'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â Glastir fel y gellir deall gwerth am arian y cynllun yn glir.**

**Derbyn.** Mae Taliadau Gwledig Cymru wrthi'n creu system er mwyn gallu priodoli costau gweinyddol gweithio ar wahanol agweddau o Glastir. Bydd Taliadau Gwledig Cymru yn cyflwyno adroddiad erbyn yr hydref 2015 ar y gwaith rhagarweiniol a wnaed erbyn yr adeg honno, a'r hyn a gyflawnwyd o ran priodoli'r costau.

**Argymhelliad 6:**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arolygiadau amrywiol o ffermwyr gan ei hasiantaethau wedi'u halinio pan fo'n bosibl ac y caiff data eu rhannu rhwng arolygiaethau i leihau'r aflonyddwch ar ffermwyr a sicrhau'r effeithlonrwydd gweinyddol mwyaf.**

**Derbyn.** Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i rannu data rhwng arolygiaethau i sicrhau bod trefniadau arolygu'n gyson lle bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn digwydd drwy gyfuniad o rhannu data asesiadau risg a chyfeiriadau ad hoc lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn arfer sefydledig sydd wedi bodoli ers cyflwyno'r drefn Trawscydymffurfio yn 2005.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn trafod â Chyfoeth Naturiol Cymru beth arall y gellid ei gydgysylltu i leihau'r baich arolygu a'r costau gweinyddol fel rhan o'u cyfathrebu rheolaidd. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer Mehefin 2015.

**Argymhelliad 7:**

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn hydref 2015 ynghylch y targedau heriol ond realistig y mae wedi'u pennu ar gyfer cyfranogiad Glastir, gan gynnwys y cyllidebau sy'n cyd-fynd â'r targedau**

**Derbyn.** Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu'r dyraniad cyllid i bob agwedd o Glastir i'r Pwyllgor yn ogystal â rhestr o brif ddangosyddion y cynllun a'r targedau darparu ar eu cyfer o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf, erbyn hydref 2015.

**Argymhelliad 8:**

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor, neu ei olynydd, ar ei gwaith monitro a gwerthuso pan fydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac yn sicr erbyn mis Mai 2016**

**Derbyn yn rhannol.** Mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar ganfyddiadau'r rhaglen Monitro a Gwerthuso. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno crynodeb o'r canfyddiadau i'r Pwyllgor ar ôl cyhoeddi adroddiad sylfaenol y flwyddyn olaf. Disgwylir i hwn gyrraedd Llywodraeth Cymru yn haf 2016, felly caiff yr adroddiad cryno ei baratoi erbyn hydref 2016.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 26 Mai 2015
Ein Cyf: HVT/2330 /caf


Annwyl Darren

## CYNGOR YNGHYLCH YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I *GLASTIR*

Yn llythyr y Dirprwy Glerc, dyddiedig 6 Mai 2015, gofynnwyd am fy nghyngor ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Glastir, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn derbyn chwech o'r wyth argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor ac yn derbyn y ddau arall yn rhannol. At ei gilydd, rwyf o'r farn fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn foddhaol i'r argymhellion. Fodd bynnag, rwyf wedi tynnu sylw isod at nifer o feysydd lle yr hoffai'r Pwyllgor geisio gwybodaeth neu eglurhad pellach, efallai, yn awr neu pan roddir diweddariadau pellach.

**Argymhelliad 1:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol. Un o amcanion penodol Glastir Uwch yw sicrhau 'gwelliannau sylweddol' i statws amgylcheddol amrywiaeth o gynefinoedd, rhywogaethau, priddoedd a dŵr. Mae Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi ailddatgan ei barn y gwneir defnydd da a chyfreithlon o arian cyhoeddus pan delir, trwy Glastir Uwch, am rai ymyriadau sydd yn sicrhau y parheir i reoli'n gadarnhaol gynefinoedd gwerthfawr lle credir y byddai perygl gwirioneddol i'r rhain gael eu colli fel arall. Efallai y byddai o fudd i Lywodraeth Cymru wneud ei safbwynt yn gliriach yn yr amcanion a osodwyd ganddi ar gyfer Glastir Uwch.

Roedd f'adroddiad yn cydnabod bod y math o arferion a noddir o dan Glastir Uwch yn fwy tebygol, wrth natur, na'r rhai oedd yn digwydd o dan Glastir Sylfaenol, o fynnu newid mewn arferion ffermio ac, oherwydd hynny, y dylai cynlluniau i gyfran helaethach o arian Glastir fynd i Glastir Uwch gynnig mwy o ychwanegedd ar draws cynllun Glastir yn ei gyfanrwydd. Roedd f'adroddiad hefyd yn nodi bod cyfran fwy o'r arian wedi'i dyrannu ar gyfer gwaith cyfalaf - sydd yn fwy tebygol na thaliadau rheoli o arwain at welliannau amgylcheddol - o dan Glastir o'i gymharu â chynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol. Serch hynny, tynnwyd sylw yn f'adroddiad at y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn dal heb fod yn casglu digon o wybodaeth, pan wneir ceisiadau, ynghylch arferion presennol

rheoli ffermydd, i gefnogi ei phenderfyniadau ac i helpu i farnu yn y pen draw faint o ychwanegedd sy'n cael ei sicrhau.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi rhywfaint o fanylion am y modd y bydd ymyriadau drwy gyfrwng Glastir Uwch yn cael eu targedu yn well eto o fis Mai 2015 ymlaen, yn enwedig i resymoli amcanion fel y ceir buddiannau gwirioneddol; i hyfforddi rheolwyr contractau yn well; ac i wella'r ddogfennaeth, y mapiau a'r canllawiau a ddefnyddir gan reolwyr contractau. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi dweud hynny'n benodol, rhagdybiaf fod y pethau hyn yn cael eu gwneud oherwydd i'r Llywodraeth ystyried y canfyddiadau yr hysbyswyd swyddogion amdanynt ym mis Mawrth 2015 ar ôl gwerthuso sampl o gontractau Glastir Uwch. Gallasai'r Pwyllgor fod wedi croesawu rhagor o fanylion am ganfyddiadau'r gwaith hwnnw, yn enwedig o safbwynt y sylw a roddwyd i fater ychwanegedd.

**Argymhelliad 2:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad hwn yng nghyd-destun ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad ar yr un mater yn f'adroddiad innau. Yn yr ymateb hwnnw, roedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi camddehongli f'argymhelliad i olygu hyrwyddo gwobrwyo'n ariannol ffermydd sydd ag arferion annerbyniol o wael a'r rheini'n achosi problemau gydag ansawdd dŵr. Mae'r ymateb i adroddiad y Pwyllgor yn rhoi disgrifiad llawnach o wahanol bethau y gellir eu gwneud er mwyn dilyn argymhelliad y Pwyllgor (a'm hargymhelliad blaenorol innau, felly). Fodd bynnag, nid yw'r ymateb yn rhoi digon o fanylion am yr amserlen ar gyfer rhoi'r pethau hyn ar waith.

Mae gobaith y bydd datblygu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ei gwneud yn haws adnabod ardaloedd problemus a thargedu ymyriadau. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn gallu cael gafael ar y dystiolaeth am ansawdd dŵr y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei chasglu fel rhan o'u gwaith ar y cynlluniau hyn, ac y bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn gweld pa ymyriadau sy'n bosibl i wella ansawdd dŵr fel sydd ei angen. Bydd taliadau Glastir a dargedir i ddalgylchoedd allweddol o safbwynt ansawdd dŵr ac a adnabuwyd eisoes, yn parhau i fod yn un o blith amryw o wahanol ymyriadau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â chymhellion eraill a newidiadau i'r system reoleiddio. Ar gyfer ffermydd sydd ag arferion annerbyniol o wael, dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cynnig cyngor effeithiol ar atal llygredd, ac y bydd hefyd yn defnyddio pwerau gorfodi. Mae'r ymateb hefyd yn rhoi sylw i'r rhan o'r argymhelliad hwn sy'n ymwneud â thalu neu beidio â thalu arian cyhoeddus, ac yn manylu ar gynigion i wella canllawiau a chyngor arbenigol ar gyfer ffermwyr er mwyn lleihau'r effaith a gânt ar ansawdd dŵr a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**Argymhelliad 3:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn ac mae fel petai wedi gwneud cynnydd da o ran pennu statws ecolegol pob corff dŵr yng Nghymru yn ei

Chynlluniau Rheoli Basnau Afon, a wnaed o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r cynlluniau hyn yn adnabod y rhesymau pam nad yw cyrff dŵr yn llwyddo i fod â statws ecolegol da, gan gynnwys y cyrff dŵr hynny sydd ar dir sy'n cael ei gynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru'n dweud sawl achos o fethu bodloni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd i'w briodoli i dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Fe godwyd y mater hwnnw gan Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn rhoi rhywfaint o fanylion am y rhaglen o flaenoriaethau ar gyfer gweithredu a'r amserlen ar gyfer gwella ansawdd dŵr lle cafwyd problemau ar ystâd Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 4:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r ymateb yn foddhaol ac mae'n atgyfnerthu rhai o'r gweithredoedd a amlinellwyd wrth ymateb i argymhelliad sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn yn f'adroddiad innau, ond yn awr fe roddir rhai manylion penodol am yr amserlen ar gyfer casglu adborth ar y broses i wneud cais ar-lein.

**Argymhelliad 5:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae ymateb Llywodraeth Cymru bellach yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol y bydd Taliadau Gwledig Cymru'n rhoi adroddiad ar y cynnydd yn hydref 2015, o ran eu gwaith rhagarweiniol a chofnodi dosraniadau. Mae'r ymateb hefyd fel petai'n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru bellach yn derbyn yn llawn argymhelliad perthnasol i hyn yn f'adroddiad innau, y dylai'r Llywodraeth yn nhrefn arferol pethau adnabod costau rhedeg Glastir er mwyn helpu i asesu pa mor effeithlon y mae'r cynllun yn cael ei weinyddu.

**Argymhelliad 6:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn ynghylch unioni gwahanol drefniadau arolygu ac mae'n sôn am y ffaith fod rhai hen arferion yn parhau a bod cynlluniau ar y gweill i drafod ymhellach, yn enwedig â Chyfoeth Naturiol Cymru, pa gyfleoedd sydd i gyd-drefnu pethau ymhellach. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad pan oedd y Pwyllgor yn trafod problem tir lle mae ansawdd y dŵr yn wael, roedd yr aelodau'n poeni bod Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oedd yn gallu cael data pwysig ar ffermydd sy'n perfformio'n wael, sef data a gedwir gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu Arolygiaeth Wledig Cymru. Buaswn wedi disgwyl, felly, i ymateb Llywodraeth Cymru roi rhyw sicrwydd y bydd trefniadau trawsgydymffurfio'n gweithio'n well yn y dyfodol a gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n fwy effeithiol, yn enwedig o ran Cyfoeth Naturiol Cymru ac Arolygiaeth Wledig Cymru.

**Argymhelliad 7:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn ac yn dweud y bydd yn darparu rhestr o ddangosyddion allweddol ar gyfer y cynllun, nid dim ond ar gyfer y niferoedd sy'n ymuno, erbyn hydref 2015. Mae argymhelliad y Pwyllgor yn gulach na'r argymhelliad a wneuthum yn y cyswllt hwn yn f'adroddiad ar Glastir, gan nad yw f'argymhelliad yn gyfyngedig i dargedau ar gyfer y niferoedd sy'n ymuno. Gan hynny rwyf


yn falch fod Llywodraeth Cymru am ddarparu rhestr o ddangosyddion allweddol ar gyfer y cynllun, nid dim ond ar gyfer y niferoedd sy'n ymuno.

Byddai'n gymorth hefyd pe gallai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran bodloni'r targed presennol ar gyfer y niferoedd sy'n ymuno â'r cynllun, cyn i unrhyw dargedau newydd ddechrau yn hydref 2015.

**Argymhelliad 8:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn foddhaol a'r rheswm y caiff yr argymhelliad ei dderbyn yn rhannol yw, yn ddigon rhesymol, na fydd adroddiad sylfaenol y flwyddyn olaf ar fonitro a gwerthuso ar gael tan haf 2016.

Gobeithio y bydd y cyngor hwn o fudd i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir iawn



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

# Eitem 7

Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Department for Economy, Science and Transport

Cyfarwyddwr Cyffredinol • Director General

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee

1 June 2015

Dear Mr Millar

**AGW Report – Welsh Government Investment in Next Generation Broadband Infrastructure**

Thank you for your letter of 28 May 2015 regarding the Auditor General for Wales's report Welsh Government investment in next generation broadband infrastructure.

We welcome the report, overall it is very positive identifying many aspects where the project is performing well and providing assurance that the Superfast Cymru project is well run.

It recognises that we are clear about what we are trying to achieve and that there is a clear justification for action. Our procurement was effective despite only having one final bidder and we now have appropriate arrangements in place to manage the project.

The report categorises progress as reasonable, although the project is currently ahead of contractual targets, and that the vast majority of the direct benefits in terms of jobs, apprenticeships and work experience have already been achieved.

However, given the sheer scale and complexity of the project and the rurality and topography of Wales it is not without its continuing challenges.

It will take some time to work through and properly address each of the recommendations in detail. In summary, however, communications and marketing is kept under constant review and we will continue to work with BT to ensure the project remains focused on achieving contractual targets.

Take-up is influenced by a wide range of factors most of which are beyond the control of the project so we will need to consider carefully our approach to targets.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn • Tel 02920 826646
james.price@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

We are developing new schemes to address those areas outside of the Superfast Cymru and commercial roll-out areas and will as part of this work consider how the Access Broadband Cymru scheme fits into these plans.  We have already achieved major benefits targets but more work is in train to identify and track other less direct benefits.

The success of the project will lead to a range of lessons that both the organisation and the wider public sector can learn from and we will seek to share these lessons as widely as possible.

We look forward to receiving the committee's view on the report.

Yours sincerely




**James Price**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon